## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

### Materion ac Amgylchiadau

**Lleithder a thyfiant llwydni**

**1.** Bod mewn cyffyrddiad â gwiddon llwch mewn cartrefi, lleithder, tyfiant llwydni neu dyfiant ffwngaidd.

**Oerfel gormodol**

**2.** Bod mewn cyffyrddiad â thymheredd isel.

**Gwres gormodol**

**3.** Bod mewn cyffyrddiad â thymheredd uchel.

**Asbestos a ffibrau mwynau a weithgynhyrchwyd**

**4.** Bod mewn cyffyrddiad â ffibrau asbestos neu ffibrau mwynau a weithgynhyrchwyd.

**Bywleiddiaid**

**5.** Bod mewn cyffyrddiad â chemegolion a ddefnyddir i drin pren a thyfiant llwydni.

**Carbon monocsid a chynhyrchion tanwydd hylosgi**

**6.** Bod mewn cyffyrddiad â'r canlynol—

(a) carbon monocsid;

(b) nitrogen diocsid;

(c) sylffwr diocsid a mwg.

**Plwm**

**7.** Amlyncu plwm.

**Ymbelydredd**

**8.** Dod i gyffyrddiad ag ymbelydredd.

**Nwy tanwydd nas hylosgwyd**

**9.** Bod mewn cyffyrddiad â nwy tanwydd nas hylosgwyd.

**Cyfansoddion organig anweddol**

**10.** Dod i gyffyrddiad â chyfansoddion organig anweddol.

**Gorboblogi a gofod**

**11.** Diffyg gofod digonol ar gyfer byw a chysgu.

**Tresbaswyr yn dod i mewn**

**12.** Anawsterau wrth gadw'r annedd neu'r tŷ amlfeddiannaeth yn ddiogel rhag i bobl nas awdurdodir ddod i mewn.

**Goleuo**

**13.** Diffyg golau digonol.

**Sŵn**

**14.** Bod mewn cysylltiad â sŵn.

**Hylendid domestig, pla a sbwriel**

**15.**—(1) Dyluniad, cynllun neu adeiladwaith gwael fel na ellir yn hawdd gadw'r annedd neu'r tŷ amlfeddiannaeth yn lân.

(2) Bod mewn cyffyrddiad â phla.

(3) Darpariaeth annigonol ar gyfer storio gwastraff tŷ a'i waredu'n hylan.

**Diogelwch bwyd**

**16.** Darpariaeth annigonol o gyfleusterau ar gyfer storio, paratoi a choginio bwyd.

**Hylendid personol, carthffosiaeth a draeniau**

**17.** Darpariaeth annigonol—

(a) o gyfleusterau i gynnal hylendid personol da;

(b) o garthffosiaeth a draenio.

**Cyflenwad dŵr**

**18.** Cyflenwad annigonol o ddŵr sydd heb ei halogi, er mwyn ei yfed ac at ddibenion domestig eraill.

**Cwympo yn gysylltiedig â baddonau etc**

**19.** Cwympo sy'n gysylltiedig â thoiledau, baddonau, cawodydd neu gyfleusterau ymolchi eraill.

**Cwympo ar arwynebau gwastad etc**

**20.** Cwympo ar unrhyw arwyneb gwastad neu gwympo rhwng arwynebau pan na fydd y newid yn y lefel yn fwy na 300 milimetr.

**Cwympo ar risiau etc**

**21.** Cwympo ar risiau, stepiau neu rampiau pan fydd y newid mewn lefel yn 300 milimetr neu'n fwy.

**Cwympo rhwng lefelau**

**22.** Cwympo rhwng lefelau pan fydd y gwahaniaeth yn y lefelau yn 300 milimetr neu'n fwy.

**Peryglon posibl gyda thrydan**

**23.** Bod mewn cyffyrddiad â thrydan.

**Tân**

**24.** Bod mewn cyffyrddiad â thân afreolus a'r mwg sy'n gysylltiedig ag ef.

**Fflamau, arwynebau poeth etc**

**25.** Bod mewn cyffyrddiad â'r canlynol—

(a) tân neu fflamau a reolir;

(b) pethau, hylifau neu anweddau poeth.

**Taro yn erbyn neu mynd yn sownd**

**26.** Taro yn erbyn drysau, ffenestri neu nodweddion pensaernïol eraill, neu rannau o'r corff yn mynd yn sownd ynddynt.

**Ffrwydradau**

**27.** Ffrwydrad yn yr annedd neu yn y tŷ amlfeddiannaeth.

**Safle amwynderau a'u gweithrediad etc**

**28.** Safle, lleoliad a gweithrediad amwynderau, ffitiadau a chyfarpar.

**Dymchwel strwythurol ac elfennau'n disgyn**

**29.** Yr annedd gyfan neu ran ohoni neu'r tŷ amlfeddiannaeth cyfan neu ran ohono yn dymchwel.